Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 19 Hydref 2011**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8505
CELG.committee@wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Craffu ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2012 - 2013 (09.00 - 11.30)

**Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (09.00 - 10.00)** (Tudalennau 1 - 6)
CELG(4)-06-11 : Papur 1

- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
- Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro Y Tim Gweithrediadau LIL&Ch

**Egwyl (10.00 - 10.30)**

**Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau (10.30 - 11.00)** (Tudalennau 7 - 13)
CELG(4)-06-11 : Papur 2

- Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Addysg a Sgiliau
- Ceinwen Jones, Pennaeth Uned Datblygu'r Iaith Gymraeg

**Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (11.00 - 11.30)** (Tudalennau 14 - 16)
CELG(4)-06-11 : Papur 3

- Roger Pride, Cyfarwyddwr Marchnata, BMTG

## 3. Papurau i'w nodi (Tudalen 17)

Tystiolaeth ychwanegol gan Gymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru: 'Safer Communities for You'
CELG(4)-06-11 : Papur 4

# Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

CELG(4)-06-11 : Papur 1

**Papur tystiolaeth - Llywodraeth Leol a Chymunedau, Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2012-13.**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor am gynigion cyllideb rhaglen Llywodraeth Leol a Chymunedau yn y dyfodol a amlinellwyd o fewn y Gyllideb Ddrafft a gyflwynwyd ar 4 Hydref 2011. Mae'n cwmpasu'r meysydd hynny sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sef cymunedau a llywodraeth leol.

## 2. Cefndir

O gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2011-12 (fel y'i hailddatganwyd yn seiliedig ar y strwythur newydd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2011-12), mae cyfanswm dyraniad y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi gostwng £50.5m yn 2012-13 a £45.5m yn 2013-14. Y cynllun dangosol ar gyfer 2014-15, a gaiff ei gyhoeddi am y tro cyntaf, yw £5.154bn (£23.1m yn uwch na 2013-14). Mae'r newidiadau hyn yn deillio'n bennaf o ostyngiad yng nghyllideb nad yw'n arian parod Trafnidiaeth (sy'n darparu ar gyfer dibrisiant a diffygion mewn perthynas â'r rhwydwaith cefnffyrdd ac yn lleihau £61.5m o 2012-13 ymlaen).

Mae'r tabl ariannol cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) Llywodraeth Leol a Chymunedau. Nid yw hyn yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r tabl hefyd yn dangos y newid £000 a'r newid canrannol yn y gyllideb o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a'r newid £000 o gymharu â'r gyllideb flaenorol (mewn italig).

**Tablau Ariannol Cryno:**

**Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau**

£000

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw | 4,834,155 | 4,842,872 | 4,897,837 | 4,920,978 |
| Newid £000 o | | 8,717 | 54,965 | 23,141 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol | | | | |
| *Newid £000 o gymharu â'r Cynllun Blaenorol* | | *-50,502* | *-45,502* | *-22,361* |
| Newid Canrannol | | 0.2% | 1.1% | 0.5% |
| Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf | 281,172 | 261,641 | 233,291 | 233,291 |
| Newid £000 o gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol | | -19,531 | -28,350 | 0 |
| *Newid £000 o gymharu â'r Cynllun Blaenorol* | | *0* | *0* | *0* |
| Newid Canrannol | | -6.9% | -10.8% | 0.0% |
| Llinell Sylfaen y Terfyn Gwariant Adrannol | 5,115,327 | 5,104,513 | 5,131,128 | 5,154,269 |
| Newid £000 o gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol | | -10,814 | 26,615 | 23,141 |
| *Newid £000 o gymharu â'r Cynllun Blaenorol* | | *-50,502* | *-45,502* | *-22,361* |
| Newid Canrannol | | -0.2% | 0.5% | 0.4% |

Yn dilyn newidiadau portffolio ym mis Mai 2011, mae Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau hefyd yn cynnwys cyllidebau Trafnidiaeth. Rhoddir tystiolaeth ar wahân i Bwyllgor yr Economi a Busnes yn hynny o beth. Gan mai dyma yw mwyafrif cyllideb cyfalaf Llywodraeth Leol a Chymunedau a chyfran helaeth o'r gyllideb refeniw, darparwyd tabl ar wahân sy'n crynhoi cyllidebau Llywodraeth Leol a Chymunedau heb gynnwys Trafnidiaeth.

**Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau (heb gynnwys Trafnidiaeth)**

| | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn Gwariant Adrannol | 4,397,892 | 4,410,143 | 4,463,007 | 4,485,407 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Refeniw | | | | |
| Newid £000 o gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol | | 12,251 | 52,864 | 32,400 |
| *Newid £000 o gymharu â'r Cynllun Blaenorol* | | *10,917* | *15,917* | *38,317* |
| Newid Canrannol | | 0.3% | 1.2% | 0.7% |
| Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf | 46,775 | 43,618 | 38,942 | 38,942 |
| Newid £000 o gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol | | -3,157 | -4,676 | 0 |
| *Newid £000 o gymharu â'r Cynllun Blaenorol* | | *0* | *0* | *0* |
| Newid Canrannol | | -6.7% | -10.7% | 0 |
| Llinell Sylfaen y Terfyn Gwariant Adrannol | 4,444,667 | 4,453,761 | 4,501,949 | 4,524,349 |
| Newid £000 o gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol | | 9,094 | 48,188 | 32,400 |
| *Newid £000 o gymharu â'r Cynllun Blaenorol* | | *10,917* | *15,917* | *38,317* |
| Newid Canrannol | | 0.2% | 1.1% | 0.8% |

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Mae Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cyfrannu at nifer o nodau yn y Rhaglen Lywodraethu, yn arbennig drwy ein ffocws trawsbynciol ar atgyfnerthu'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ar fynd i'r afael â thlodi a hyrwyddo diogelwch, ac ar wella'r seilwaith trafnidiaeth sy'n galluogi mynediad i gyflogaeth ac yn ategu ansawdd bywyd pobl yng Nghymru.

Mae ein rhaglenni adrannol yn cefnogi diwygiadau i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, effeithlon a hygyrch sy'n diwallu anghenion pobl. Rydym yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau (gan gynnwys ofn troseddau), camddefnyddio sylweddau ac yn gweithio i leihau nifer yr achosion o

danau ac argyfyngau eraill a'u heffaith. Byddwn yn ceisio gwella bywydau pobl drwy weithio i leihau tlodi, lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn dod yn dlotach, a helpu pobl a chymunedau allan o dlodi parhaus.

Mae'r arian adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â'r rhaglenni gwariant canlynol:

- **Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO)** – Dyrannwyd £5m ychwanegol i ni yn 2013-14 a 2014-15 i helpu i ddarparu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol.

- **Tocynnau Teithio Rhatach –** Dyrannwyd £0.7m ychwanegol i ni yn 2014-15 er mwyn i bensiynwyr a phobl anabl a'u gofalwyr allu teithio ar y bws am ddim.

- Cyflawnir yr addewid i **ddarparu mwy o arian i ysgolion** drwy £22.4m ychwanegol i'r Grant Cynnal Refeniw yn 2014-15. Mae hyn yn ychwanegu at yr arian ychwanegol a gynhwyswyd yn y setliad yng nghyllideb y llynedd i ysgolion. Bydd hyn yn golygu cyfanswm o £80m ychwanegol y flwyddyn i ysgolion erbyn 2014-15, o gymharu â'r setliad llywodraeth leol cyfredol.

Ar wahân i'r rhain, mae'r cyllidebau naill ai'n unol â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol, neu'n cynyddu o ganlyniad i addewidion **"pump am ddyfodol tecach"** a newidiadau eraill.

Trosglwyddwyd cyfanswm o £11.1m i'r **Grant Cynnal Refeniw** o 2012-13 mewn perthynas â Grant y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a'r Pecyn Camau Cyntaf. O ganlyniad, bydd y llinellau sylfaen ar gyfer 2012-13 ymlaen yn unol â setliad llywodraeth leol terfynol 2011-12. Ceir manylion pellach pan gaiff yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol Dros Dro a'r sail dosbarthu eu cyhoeddi ar 18 Hydref 2011. Bydd hyn yn pennu swm y Grant Cynnal Refeniw y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddosbarthu i'r cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol yn 2012-13 a thu hwnt ynghyd â'r sail dosbarthu.

O ran diwygio cyllidebau refeniw, nid oes unrhyw newidiadau perthnasol i feysydd Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth Leol a Chymunedau. Ceir cyfyngiadau o hyd ar y cyllidebau cyfalaf ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant, gyda'r gostyngiadau o lefelau 2011-12 yn unol â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Gwnaed rhai newidiadau strwythurol i Brif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau fel rhan o'r gyllideb hon er mwyn hwyluso'r broses o'i gysoni â'r cynllun busnes adrannol, a'r broses o uno cyllidebau sy'n canolbwyntio ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus.

## 4. Pump am Ddyfodol Tecach

Rydym yn benderfynol o sicrhau bod ein cymunedau yn gryfach ac yn fwy diogel. Rydym wedi ymrwymo i ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol. Bydd hyn yn gynnydd mawr o ran niferoedd a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'n cymunedau. Nid yw Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn disodli swyddogion yr heddlu â gwarant, ond yn hytrach maent yn ategu ac yn cefnogi adnoddau presennol yr heddlu. Bydd y swyddogion newydd hyn yn adeiladu ar y cysylltiadau rhwng yr heddlu a chymunedau, gan ddarparu gwelededd a sicrwydd ac ymgysylltu â phobl leol. Byddant yn gallu mynd i'r afael â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n bla ar rai o'n cymunedau o hyd. A byddant yn datblygu'r cydberthnasau sy'n bodoli eisoes rhwng plismona a phrif flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, megis Cymunedau yn Gyntaf.

## 5. Y Rhaglen Lywodraethu

Bydd y Llywodraeth yn parhau i gefnogi ein hardaloedd mwyaf difreintiedig drwy gam nesaf y **Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf**. Fel yr amlygwyd yn y Ddogfen Ymgynghori "Cymunedau yn Gyntaf - y Dyfodol" (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011), o fis Ebrill 2012 bydd Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio ar gefnogi agenda **Gwrth-Dlodi** y Llywodraeth. Bydd yn helpu'r bobl o dan yr anfantais fwyaf yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig gyda'r nod o liniaru tlodi parhaus. Bydd yn gweithio ochr yn ochr â rhaglenni eraill i gulhau'r bylchau addysg, sgiliau, economaidd ac iechyd rhwng ardaloedd mwyaf difreintiedig ac ardaloedd mwyaf llewyrchus Cymru, ac i helpu unigolion i ddod o hyd i waith.

Bydd y Llywodraeth yn cefnogi camau gweithredu i wella'r broses o **ddarparu gwasanaethau cyhoeddus** drwy atgyfnerthu democratiaeth leol a pharhau i sicrhau setliadau ariannol i **lywodraeth leol** sy'n adlewyrchu anghenion lleol. Bydd cyhoeddi setliadau ariannol dangosol ar gyfer 2013-14 a 2014-15 yn galluogi awdurdodau i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Bydd cymhellion ariannol i wella gwasanaethau, a rhoddir cymorth ymarferol i awdurdodau nad ydynt yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Caiff trefniadau cynllunio a phartneriaeth eu symleiddio.

Mae'r Llywodraeth wedi cytuno ar ôl troed cyffredin ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gan adeiladu ar ffiniau Byrddau Iechyd Lleol a'r heddlu. Bydd y broses o safoni trefniadau cydweithredu yn seiliedig ar ffiniau cyffredin yn galluogi ac yn ategu trefniadau cydweithio ar draws gwasanaethau llywodraeth leol, iechyd a'r heddlu gan leihau cymhlethdod a darparu fframwaith clir ar gyfer cydweithredu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y camau i roi adolygiad Simpson ar waith a'r diwygiadau pwysig eraill sy'n mynd rhagddynt ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd Grŵp Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn llywio'r diwygiadau a bydd Cyngor Partneriaeth ar ei newydd wedd yn darparu

llywodraethedd gadarn o ran cydweithredu er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd gorau posibl yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

## 6. Asesiadau Effaith

Wrth bennu'r dyraniadau cyllidebol, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i effaith y newidiadau ar gydraddoldeb. Fel rhan o broses y gyllideb y llynedd, gwnaethom gryn dipyn o waith i asesu effaith y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym ar gydraddoldeb. Nid yw tybiaethau sylfaenol dyraniadau eleni wedi newid o gymharu â chynlluniau y llynedd. Er enghraifft, mae'r diogelwch a roddir eisoes i gyllidebau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol yn ystyried hyn yn ogystal ag adlewyrchu'n fwy cyffredinol yr angen i gynnal gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae cynnydd mewn dyraniadau ar gyfer blaenoriaethau fel **teithiau bws am ddim i bensiynwyr a phobl anabl a'u gofalwyr** yn 2014-15 hefyd yn pwysleisio ein hymrwymiad i'r agenda cydraddoldebau. Er bod cyllid yn cael ei ailbroffilio o fewn y cyllidebau trafnidiaeth a bod newidiadau strwythurol i gyllidebau llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus, nid oes unrhyw effeithiau posibl o ran cydraddoldebau. Yn olaf, cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cam nesaf o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar yr adeg briodol.

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**

# Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

CELG(4)-06-11 : Papur 2

**Y gyllideb ddrafft ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn y portffolio Addysg a Sgiliau**

**Diben**

1. Darparu papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am y dyraniad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn y portffolio Addysg a Sgiliau ar gyfer 2012-13.

2. Mae'n bwysig nodi mai ffigurau ar gyfer rhaglenni penodol yw'r ffigurau a amlinellir yn y papur. Nid oes modd darparu ffigurau ar gyfer costau cyffredinol hyrwyddo'r iaith, gan fod dwyieithrwydd yn rhan annatod o weledigaeth Llywodraeth Cymru a chan fod darparu gwasanaethau dwyieithog yn cael ei brif ffrydio ar draws ei holl feysydd gwaith.

**Yr amserlen**

3. Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ar 4 Hydref 2011.

**Y Gyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau ar gyfer 2012-13**

4. Mae Cyllideb Ddrafft 2012-13 yn gynllun tair blynedd ar gyfer buddsoddi mewn addysg a sgiliau yng Nghymru. Mae Tabl 1 yn drosolwg o'r gyllideb arfaethedig neu'r 'prif grŵp gwariant' (MEG) ar gyfer Addysg a Sgiliau, ac mae hefyd yn dangos y newidiadau a wnaed i'r gyllideb ddangosol ers i'r Gyllideb Atodol ddiwethaf (a oedd yn ailddatgan y gyllideb Addysg a Sgiliau gan ystyried newidiadau a wnaed i bortffolios ers y Gyllideb Derfynol) gael ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2011.

*Tabl 1: Y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a Sgiliau*

| | | 2012-13 | | | 2013-14 | | | 2014-15 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Y Gyllideb a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011** | **Atodol Mehefin 2011** | **Newidiadau** | **Y Gyllideb Arfaethedig** | **Atodol Mehefin 2011** | **Newidiadau** | **Y Gyllideb Arfaethedig** | **Atodol Mehefin 2011** | **Newidiadau** | **Y Gyllideb Arfaethedig** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Refeniw | 1,630.2 | 1,627.6 | 20.6 | 1,648.2 | 1,647.6 | 27.2 | 1,674.8 | 1,647.6 | 34.8 | 1,682.4 |
| Cyfalaf | 169.9 | 161.3 | 0 | 161.3 | 143.8 | 0 | 143.8 | 143.8 | 0 | 143.8 |
| **Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | **1,800.1** | **1,788.9** | **20.6** | **1,809.5** | **1,791.4** | **27.2** | **1,818.6** | **1,791.4** | **34.8** | **1,826.2** |
| Gwariant a | 125.3 | 122.3 | 28.2 | 150.5 | 112 | 49.3 | 161.3 | 112 | 41.3 | 153.3 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Reolir yn Flynyddol (AME) | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **1,925.4** | **1,911.2** | **48.8** | **1,960.0** | **1,903.4** | **76.5** | **1,979.9** | **1,903.4** | **76.1** | **1,979.5** |

5. Mae gwybodaeth fanwl am y gyllideb Addysg a Sgiliau yn ei chyfanrwydd i'w gweld mewn papur tystiolaeth tebyg a baratowyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Menter a Busnes ar 12 Hydref.

**Uned yr Iaith Gymraeg/Comisiynydd y Gymraeg**

6. Cymeradwywyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Rhagfyr 2010 a chafodd Cydsyniad Brenhinol ar 9 Chwefror 2011. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac ar gyfer sefydlu Comisiynydd y Gymraeg yn 2012. Bydd newidiadau mawr yn sgil y Mesur. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei benodi, a Thribiwnlys y Gymraeg yn cael ei sefydlu, yn ogystal â system newydd o Safonau yn ymwneud â'r Gymraeg.

7. Roedd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-14, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010, yn cynnwys cyfanswm y cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12 a'r ffigurau dangosol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2012-13 a 2013-14. Cafodd hyn ei gadarnhau hefyd yn Llythyr Cylch Gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12.

**http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/20110414remitlettertoWLB2011cym.pdf**

8. Caiff y dyraniadau arfaethedig ar gyfer cyllideb Uned yr Iaith Gymraeg eu dangos yn y tabl isod. Bydd y dyraniadau ar gyfer 2012/13 a 2013/15 yn cael eu rhannu rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru (fel y trafodir isod):

*Tabl 2 – Dyraniadau'r Gyllideb Refeniw*

| | 2011/12 £000 | 2012/13 £000 | 2013/14 £000 | 2014/15 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau Rhedeg | 4,427 | 4,427 | 4,427 | 4,427 |
| Gwariant Presennol | 9,446 | 9,546 | 9,646 | 9,646 |
| Derbynebau Presennol | (200) | (200) | (200) | (200) |
| Gwariant Cyfalaf | 50 | 100 | 100 | 100 |
| Dibrisiant | 131 | 131 | 131 | 131 |
| Prosiect yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia | 54 | 54 | 54 | 54 |
| Cyhoeddusrwydd Cymraeg | 20 | 20 | 20 | 20 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **13,928** | **14,078** | **14,178** | **14,178** |

9. Caiff llinell wariant bresennol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei dosbarthu fel a ganlyn yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12:

- Caiff **£2.87m** (30%) ei ddosbarthu i awdurdodau lleol i hybu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog;
- Caiff **£4.60m** (49%) ei ddosbarthu fel grantiau er mwyn hybu'r iaith;
- Caiff **£1.98m** (21%) ei ddyrannu i brosiectau.

10. Caiff y cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o grantiau a phrosiectau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2012. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn derbyn y cyfrifoldeb am ddatblygu cymunedol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys grantiau i fudiadau Cymraeg fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin a'r Mentrau Iaith.

11. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn gyfrifol am Safonau, Terminoleg, Cyfieithu a Thechnoleg – a hefyd am weithredu'r system newydd o Safonau yn ymwneud â'r Gymraeg.

12. Bydd y cynnydd dangosol ar gyfer Uned yr Iaith Gymraeg ar ei ffurf estynedig/Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn hwyluso'r gwaith o weithredu'r strategaeth iaith Gymraeg arfaethedig. Mae fersiwn terfynol y strategaeth wrthi'n cael ei gwblhau. Cynhaliwyd proses ymgynghori ynghylch y strategaeth ddrafft rhwng 13 Rhagfyr 2010 a 4 Chwefror 2011. Cyhoeddodd y cyn Weinidog Treftadaeth ddatganiad ar 22 Mawrth 2011 yn crynhoi'r prif themâu a gododd yn ystod y broses ymgynghori ac yn amlinellu'r camau a fyddai'n cael eu cymryd dros y flwyddyn wrth i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig gael eu cwblhau'n derfynol.

13. Bydd y strategaeth derfynol yn adlewyrchu cynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac yn ategu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (gweler isod).

14. Bydd y strategaeth newydd, ar ei ffurf derfynol, yn disodli'r cynllun gweithredu cenedlaethol presennol ar gyfer Cymru ddwyieithog, sef *Iaith Pawb*.

15. Mae'r strategaeth ddrafft yn cynnwys chwe nod strategol:

- Cryfhau statws y Gymraeg o fewn y **gymuned**;
- Annog teuluoedd i **drosglwyddo'r iaith** a'u cynorthwyo i wneud hynny;
- Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer **plant a phobl ifanc** a hybu eu gwerth yn eu mysg;
- Gwella **gwasanaethau Cymraeg ar gyfer pobl Cymru**;

- Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r **Gymraeg yn y gweithle**; a
- Cryfhau **seilwaith** yr iaith.

16. Caiff y costau rhedeg eu diogelu er mwyn hwyluso'r broses o sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a throsglwyddo swyddogaethau i Lywodraeth Cymru.

17. Nid yw'r broses o ddosbarthu'r cyllid rhwng Uned yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg wedi'i chwblhau hyd yn hyn. Mae'r trafodaethau manwl am drefniadau'r gyllideb yn y dyfodol yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, ond rhagwelir mai cyllideb flynyddol y Comisiynydd fydd tua £4 miliwn, a bydd Llywodraeth Cymru yn cadw tua £9 miliwn o gyllideb bresennol Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

18. O'r £9 miliwn hwnnw fydd Llywodraeth Cymru yn ei gadw, caiff tua £4 miliwn ei ychwanegu at linell gyllideb Cymraeg mewn Addysg (Datblygiad yr Iaith Gymraeg gynt), a bydd yr hyn sy'n weddill yn cael ei weinyddu gan Uned yr Iaith Gymraeg.

19. Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol ar y cyd am y prosiect o reoli'r gwaith o drosglwyddo i'r trefniadau newydd, gan gynnwys y gwaith parhaus o bennu'r cyllidebau'n derfynol.

**Prosiect Addysgu'r Iaith Gymraeg ym Mhatagonia (£54,000)**

20. Caiff y cyllid hwn ei ddarparu gan Gyngor Prydeinig Cymru sy'n rheoli'r prosiect iaith Gymraeg ym Mhatagonia ar ran Llywodraeth Cymru. Caiff y prosiect ei reoli gan y Cyngor Prydeinig mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cymru-Ariannin a Chanolfan Cymraeg i Oedolion - Caerdydd a Bro Morgannwg, Prifysgol Caerdydd.

21. Mae'r prosiect hwn yn caniatáu i athrawon fynd ar secondiad i gymunedau targed allweddol ym Mhatagonia, datblygu athrawon brodorol, sefydlu cyrsiau wedi'u strwythuro a hyrwyddo gweithgareddau yn yr iaith Gymraeg.

**Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg – cyllideb ddatblygu**

22. Mae darpariaeth barhaus y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2011-16. Mae'r Strategaeth yn amlinellu agenda hirdymor ar gyfer datblygiad parhaus addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ac yn yr iaith Gymraeg. Felly bydd gweithredu'r strategaeth yn llwyddiannus yn gofyn am fuddsoddiad parhaus gan Lywodraeth Cymru. Y mae wedi bod yn weithredol ers mis Mai 2010 a chyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar gynnydd y broses weithredu ym mis Gorffennaf 2011.

23. Mae rhai cyflawniadau pwysig yn ystod y flwyddyn gyntaf o'i gweithredu yn cynnwys:

- Gwaith datblygu pwysig i wella'r broses o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sefydlu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac ymgynghori'n anffurfiol arnynt;
- Uno grantiau er mwyn creu un grant Cymraeg mewn Addysg sydd â ffocws newydd a fydd yn helpu awdurdodau lleol i fodloni'r amcanion a ddisgwylir ohonynt yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn y Strategaeth o 2012 ymlaen;
- Parhau i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys darpariaeth alwedigaethol ar gyfer yr ystod oedran 14-19;
- Buddsoddiad sylweddol yn y fframwaith cenedlaethol ar gyfer hyfforddi ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg;
- Cefnogaeth barhaus ar gyfer rhoi cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg drwy'r rhaglen Cymraeg i Oedolion; a
- Comisiynu adnoddau dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg.

24. Y gyllideb gyfredol a bennwyd ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yw £12.377 miliwn fesul blwyddyn ariannol (Llinell Wariant y Gyllideb Datblygu'r Iaith Gymraeg 5164). O 2011-12 ymlaen, bydd yn cynnwys £2.28 miliwn er mwyn ariannu'r Grant Cymraeg mewn Addysg newydd (WEG). Ar gyfer 2011-12, mae'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn gweinyddu cyllideb a ddarparwyd yn y gorffennol gan yr elfen iaith Gymraeg o'r Gronfa ysgolion Gwell (Ardal Blaenoriaeth 2). Ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, bydd hefyd yn cyfuno cyllid a ddarparwyd gan grantiau sy'n cael eu gweinyddu ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

25. Yn ogystal â'r gyllideb benodol ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, caiff y cyllid ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ei brif ffrydio hefyd yn rhan o bolisïau a rhaglenni sy'n cael eu rheoli gan dimau eraill ar draws AdAS.

26. Mae'r cyllidebau dangosol yn dangos y caiff y gyllideb ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ei diogelu ar y lefelau presennol. Bydd hyn yn galluogi i lawer o waith datblygu gael ei wneud er mwyn cefnogi'r pwyntiau gweithredu sydd wedi'u blaenoriaethu a'u pennu yn y Strategaeth. O 2012-13 ymlaen, caiff cyllid o oddeutu £4 miliwn ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru o Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn galluogi i gyfrifoldebau presennol y Bwrdd mewn perthynas ag addysg gael eu trosglwyddo.

27. Dangosir yn y tabl isod y prif feysydd gwaith sy'n cael eu hariannu gan gyllideb y Strategaeth Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2011-12:-

*Tabl 3 Y prif feysydd gwaith sy'n cael eu hariannu gan gyllideb y Strategaeth Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2011-12*

| | Gwariant |
|---|---|
| Gwella cynlluniau addysg cyfrwng Cymraeg a datblygu'r ddarpariaeth (gan gynnwys 14-19, Colegau Addysg Bellach) | £1.450m |

| | |
|---|---|
| Grant Cymraeg mewn Addysg | £2.280m |
| Datblygu sgiliau ieithyddol (gan gynnwys Cymraeg i Oedolion ac ymyriadau ar gyfer Cymraeg fel ail iaith) | £2.840m |
| Hyfforddiant i ymarferwyr (gan gynnwys y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg) | £2.907m |
| Comisiynu adnoddau addysgu a dysgu | £2.900m |
| | **£12.377m*** |

* Caiff swm ychwanegol o oddeutu £4 miliwn ei ychwanegu at y gyllideb hon yn 2012-13 ar gyfer grantiau sy'n cael eu gweinyddu ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Mudiad Meithrin, i awdurdodau lleol ar gyfer *athrawon bro* (athrawon peripatetig arbenigol yn y Gymraeg) ac ychydig o grantiau addysg bychan iawn.

28. Nid oes cynlluniau i wneud newidiadau mawr ar gyfer 2012-13 er y bydd cyfran y gyllideb i'w defnyddio i gefnogi pob un o'r meysydd allweddol uchod yn amrywio yn ôl y camau gweithredu sydd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer eu hystyried yn ystod 2012-13. Bydd yr holl wariant yn cyd-fynd yn glir â chwe nod strategol y Strategaeth.

**Gwariant ar y Gymraeg o fewn Rhaglenni eraill ym Mhrif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a Sgiliau**

29. Mae Tabl 4 yn cynnwys gwybodaeth ynghylch dosbarthu cyllid ar brosiectau'n ymwneud â'r Gymraeg o fewn rhaglenni eraill ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau yn ystod blwyddyn ariannol 2011/12. Nid yw'r gyllideb ar gyfer 2012-13 wedi'i dadgyfuno eto islaw lefel y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).

Tabl 4 *Gwariant ar y Gymraeg o fewn Rhaglenni eraill ym Mhrif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a Sgiliau*

| ***O fewn Meysydd Rhaglenni Gwariant (SPAs) Rhaglenni eraill*** | **2011/12 £000** |
|---|---|
| ***BEL Er Mwyn Ein Dyfodol*** | |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol | 3,150 |
| Ysgoloriaethau Cyfrwng Cymraeg | 130 |
| ***BEL Darpariaeth i Ddysgwyr*** | |
| Cymraeg i Oedolion/Canolfannau Cymraeg i Oedolion | 10,288 |
| ***BEL Cymwysterau*** | |
| Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg (WMES) | 757 |
| ***BEL Anghenion Dysgu Ychwanegol*** | |
| Pecyn Cymorth Asesiadau Cymraeg | 30 |
| ***BEL Y Cyfnod Sylfaen*** | |
| Iaith Pawb (Hyfforddiant i Ymarferwyr Cyfrwng Cymraeg) | 2,000 |
| ***BEL Llythrennedd a Rhifedd*** | |
| Grant Cyngor Llyfrau Cymru | 169 |
| ***BEL Dysgu 14-19*** | |

| | |
|---|---|
| Elfen Cyfrwng Cymraeg y dyraniadau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Cenedlaethol | 1,200 |
| ***BEL Recriwtio Athrawon*** | |
| Cydymffurfio â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Ysgolion | 65 |
| Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg | 280 |
| | **18,069** |

**Crynodeb**

30. Cyflwynir dyraniad y gyllideb ddrafft ar gyfer y Gymraeg o fewn y portffolio Addysg a Sgiliau am 2012-13 gerbron y pwyllgor i'w ystyried.

# Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**CELG(4)-06-11 : Papur 3**

**Papur tystiolaeth – Cyllideb Dwristiaeth Ddrafft Llywodraeth Cymru 2012/13**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol gefndirol i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ynghylch cynlluniau gwariant yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar gyfer Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr, fel yr amlinellir yn y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 4 Hydref 2011.

## Crynodeb o Newidiadau'r Gyllideb

2. Mae cynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr wedi'u llunio yng nghyd-destun gostyngiad yn y llinellau sylfaen yn dilyn setliad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Mae crynodeb yn Atodiad A o'r prif feysydd gwariant ym Maes y Rhaglen Wariant. Yn gyffredinol mae'r gyllideb Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr wedi gostwng £0.279m, sef gostyngiad o 1.4% yn erbyn llinell sylfaen 2011/12.

## Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Atodol 2011/12 £'000 | Newidiadau | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2013/14 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr | Refeniw | 16,677 | 84 | 16,593 | 16,523 | 16,523 |
| | Cyfalaf | 2,790 | 195 | 2,595 | 2,313 | 2,313 |
| | **CYFANSWM** | **19,467** | **279** | **19,118** | **18,836** | **18,836** |

## Twristiaeth

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | 2011/12 Cyllideb Atodol £'000 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2013/14 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Twristiaeth | Refeniw | 12,747 | 12,723 | 12,626 | 12,626 |
| | Cyfalaf | 2,790 | 2,595 | 2,313 | 2,313 |
| | **CYFANSWM** | **15,537** | **15,318** | **14,939** | **14,939** |

3. Bydd cyllid o £15.3m ar gyfer gweithgareddau twristiaeth yn canolbwyntio ar gynyddu galw a throsi ymwelwyr, datblygu profiad ymwelwyr a hwyluso ymgyrchoedd marchnata perthnasol. Mae'r gostyngiad o £0.219m yn sgil arbedion effeithlonrwydd mewn gweithgarwch twristiaeth.

4. Mae'r gostyngiad cyffredinol o £0.219m yn sgil arbedion effeithlonrwydd o £0.416m i ddatblygu profiad ymwelwyr, sy'n cael ei wrthbwyso gan gynnydd o £0.197m i fynd i'r afael â'r pwysau galw a throsi.

5. Y flaenoriaeth i dwristiaeth yw gweithio gyda phartneriaid y sector cyhoeddus a phreifat i ddatblygu economi ymwelwyr cynaliadwy. Bydd gweinyddu'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth a chynlluniau graddio cydlynus y DU yn effeithiol yn helpu i wella ansawdd cynhyrchion a gwneud y sector twristiaeth yn fwy cystadleuol.

6. Bydd twristiaeth yn cyfrannu at sawl ymrwymiad. Bydd camau gweithredu'n datblygu gweithgarwch twristiaeth a marchnadoedd arbenigol, ac yn manteisio i'r eithaf ar ddigwyddiadau mawr yn ein lleoliadau proffil uchel ac yn hyrwyddo Cymru fel cyrchfan dwristiaeth o safon uchel. Bydd y gyllideb yn cefnogi ymestyn y tymor ymwelwyr a'r manteision cysylltiedig, yn ogystal â nodi cyfleoedd cyllid i wella'r seilwaith a'r cynhyrchion i ymwelwyr yng Nghymru. Bydd cymorth cysylltiedig ar gyfer buddsoddi mewn hyfforddi a rheoli staff i gefnogi diwydiant o safon uchel hefyd yn bwysig.

## Digwyddiadau Mawr

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Atodol 2011/12 £'000 | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2013/14 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Digwyddiadau Mawr | Refeniw | 3,930 | 3,870 | 3,897 | 3,897 |
| | **CYFANSWM** | **3,930** | **3,870** | **3,897** | **3,897** |

7. Bydd cyllid o £3.9m ar gyfer Digwyddiadau Mawr yn cefnogi gwaith gyda ffederasiynau chwaraeon cenedlaethol, y DU a rhyngwladol i sicrhau bod Cymru'n cynnal mwy o ddigwyddiadau mawr yn y dyfodol, gan sicrhau bod Cymru gyfan yn gweld manteision yr uchelgais hon. Bydd y gyllideb hefyd yn cefnogi gwaith gyda Chyngor Caerdydd i ymchwilio i ymarferoldeb gwneud cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad yn 2026.

8. Mae'r gostyngiad o £0.060m yn sgil arbedion effeithlonrwydd.

9. Bydd y cyllid ar gyfer Digwyddiadau Mawr yn cefnogi cyflwyno Digwyddiadau Cymru – strategaeth digwyddiadau mawr gyntaf Cymru a lansiwyd ym mis Medi 2010. Nod y strategaeth yw adeiladu ar lwyddiant Prawf Cyfres y Lludw 2009 a Chwpan Ryder 2010 i ddatblygu Cymru fel cyrchfan o safon byd ar gyfer digwyddiadau mawr.

**Atodiad A**

**Meysydd Rhaglenni Gwariant – prif feysydd gwariant**

**Twristiaeth**

Mae'r Rhaglen Wariant hon yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu, hyrwyddo a marchnata Cymru fel cyrchfan i dwristiaid yn y DU a thramor.

Mae'r rhaglen farchnata'n ceisio meithrin enw da Cymru fel cyrchfan dwristiaeth yn y tymor canolig, gan ysgogi'r galw am fusnesau twristiaeth Cymru yn y tymor byr.

Er mwyn sicrhau'r elw gorau posibl o fuddsoddi'r cronfeydd sydd ar gael, mae Croeso Cymru yn dadansoddi'r farchnad ac yn nodi'r marchnadoedd blaenoriaeth a'r meysydd sydd â'r potensial mwyaf i Gymru. Drwy wneud hynny mae angen cymharu'r angen i ddatblygu marchnadoedd a meysydd sydd â photensial twf yn y tymor hwy â'r angen i barhau i lywio busnes y marchnadoedd mwy aeddfed yn y tymor byr.

Canlyniad y dadansoddiad hwn yw Cynllun Gweithredu Marchnata Strategol sy'n llywio'r camau gweithredu blaenoriaeth blynyddol. Caiff effaith y gweithgareddau marchnata hyn ei gwerthuso drwy gyfres o 7 dangosydd perfformiad allweddol. Bydd y Panel Sector Twristiaeth yn cytuno ar symud blaenoriaethau yn eu blaen.

Mae Croeso Cymru yn defnyddio technegau marchnata sy'n cynnig ymateb cyfannol ac integredig i'r her fusnes. Mae hyn yn cynnwys sicrhau'r manteision gorau posibl o'r digwyddiadau mawr sy'n cael eu cefnogi a phwyslais cynyddol ar dechnegau marchnata digidol. Mae'n cefnogi ac yn annog dull gweithredu Cymru gyfan ar gyfer datblygu twristiaeth, gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, a gweithio'n agos gyda'r pedair Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol.

**Digwyddiadau Mawr**

Dyma fydd y blaenoriaethau strategol dros y cyfnod:

- cefnogi rhaglen o Ddigwyddiadau Twf y tu allan i Gaerdydd;

- gweithio'n strategol gyda pherchnogion a threfnwyr Digwyddiadau Unigryw Cymru i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o'u hymestyn;

- ceisio denu digwyddiadau rhyngwladol mawr a fydd yn gwella cydnabyddiaeth ac enw da Cymru yn rhyngwladol;

- ar y cyd â'r Cynghorau Sgiliau Sector priodol, cydlynu cynllun gweithredu gyda'r sector addysg a darparwyr hyfforddiant i gryfhau adnoddau rheoli a chynhyrchu digwyddiadau proffesiynol Cymru.

Caiff y gyllideb digwyddiadau mawr eu defnyddio i gyflawni ymrwymiadau penodol y Rhaglen Lywodraethu er mwyn gweithio gyda ffederasiynau chwaraeon cenedlaethol, y DU a rhyngwladol i sicrhau bod Cymru'n cynnal mwy o ddigwyddiadau mawr yn y dyfodol a chefnogi gwaith gyda Chyngor Caerdydd i ymchwilio i ymarferoldeb gwneud cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad yn 2026.

# Communities, Equality and Local Government Committee

## CELG(4)-06-11 : Paper to Note : Paper 4

**Safer Communities for You**

**Overview**

Safer Communities for You (SC4U) is an innovative approach to the realignment and rebranding of the current Dyfed-Powys Crime Prevention Trust. It retains the fundamental focus of the current Trust whilst taking the Trust to its next dimension in terms of working with communities and other partners to achieve its vision of – *'Working to make our Communities Safer for You'.*

A full Business Plan has been prepared and approved by both the Force Chief Officers and the Board of Trustees.

The long term vision (12 – 36 months) is for the organisation to become self - sufficient and sustainable, allowing for a decrease in the reliance on grant funding. This will be achieved through the establishing a trading arm to ensure future economic sustainability in the face of declining public sector funding. 'Social Enterprise' status is the long term vision that can be achieved by trading certain elements of its services, and securing approximately 50% of its income from trading activities. It will remain a 'not for profit' organisation and all monies it makes will be reinvested into the 'business' to develop future crime and ASB prevention / reduction projects and initiatives, and keep the Trust sustainable.

From a financial perspective it is anticipated that income for the start of the financial year 2011/2012 will be received from grant income and will aim to cover the salaries of the Development Officer and the Admin and Finance Officer (first posts to be appointed to the new organisation) that will help to 'pump prime' the development of SC4U. After the first financial year, it is anticipated that it will generate income through various means such as charging for services, generating funds via fundraising and donations & memberships. This projected income would leave SC4U in a comfortable position at the end of the first financial year, ready to develop into the next financial year.

This approach strategically aligns itself with the UK Coalition Governments thinking of the 'Big Society' by directly contributing to a number of their stated priorities, in particular:

1. Giving Communities more powers;

2. Encouraging people to take an active role in their communities;

3. Supporting co-ops, mutuals, charities and social enterprises.

This proposal also compliments the response by the Association of Chief Police Officers to the *paper 'Policing in the 21st Century – Reconnecting People and the Police September 2010'* by encouraging volunteers to become actively involved in crime and ASB prevention *(paragraph. 5.2.4)* and develop better ways of working with the voluntary and community sector *(paragraph 5.2.12').* In this context this new brand of SC4U will draw on the solid foundations of the current Trust extending the reach of its heritage of *'promoting crime [ASB] prevention, reducing the fear of crime and providing education and information on crime [ASB] prevention – thus engaging the force vision of 'Safeguarding our Communities of Dyfed & Powys'.'*